| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025** |
| | Cystadleuaeth 84 – Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9 |
| | **Cân yr Afan, Cleif Harpwood** |

Pan grwydraf hyd dy frynia mwyn
A gwyrddni ir dy ddolydd,
Yn sŵn dy ddyfro'dd mae 'na swyn
Sy'n cwni 'nghalon beunydd.

Dan gerrig llwydion y Bont fawr
Bu Rhydyfen yn fwrlwm,
Ond mud yw'r pwll a'r ffwrnes nawr
A llonydd yw dy hirgwm.

Dan gysgod Foel fynydde fawr
A llethre Mynydd Bychan,
Am Bantdu a'r Ynys nawr
A choediog dwyn Brynbryddan.

Mae'r terfyn bellach o dy fla'n
Yn nhwyni Morfa 'Brafan,
A daw diwedd ar dy gân
Yn nyfroedd llwyd yr Hafran.

A llifo mae yr Afan
O'r cymer lawr i Brafan,
Yn waddol yn ei graean
Mae hanes hir y Cwm.